

Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2020-21

1. Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r camau y mae CITB wedi'u cymryd mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o dan adran 54, rhan 6 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015; ac mae'n cynnwys y gweithgareddau a gynhaliwyd dros y deuddeg mis diwethaf a'r rheini sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

2. Strwythur sefydliadol, busnes a chadwyni cyflenwi

CITB yw Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a'i nod yw 'ysgogi a chefnogi datblygiad pobl i adeiladu Prydain well'. Ei nod yw i'r diwydiant adeiladu ym Mhrydain gael dull arloesol, cydnabyddedig, o'r radd flaenaf, o ddatblygu ei weithlu er mwyn sicrhau ansawdd yn yr amgylchedd adeiledig. Mae CITB wedi ymrwymo i sicrhau bod gan y gweithlu adeiladu y sgiliau cywir ar gyfer nawr a'r dyfodol, yn seiliedig ar dair blaenoriaeth strategol – Gyrfaoedd, Safonau a Chymwysterau, a Hyfforddiant a Datblygiad.

Mae CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SCO44875) gyda'i bencadlys yn Peterborough, Swydd Gaergrawnt.

Mae CITB yn Gorff Hyd Braich cymwys o'r Adran Addysg ac mae wedi cytuno â'r Adran i barhau i gyhoeddi ei Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern blynyddol ei hun yn hytrach na chael ei gynnwys yn y Datganiad Gweinidogol.

Mae CITB yn nesáu at ddiwedd rhaglen Ddiwygio 2020 a bydd am y tro yn cadw'r Colegau Adeiladu Cenedlaethol yn Bircham Newton, Norfolk ac Inchinnan, Glasgow, tra bydd trafodaethau gwerthu'n parhau gyda darparwr hyfforddiant ar gyfer Erith.

Mae gan CITB tua 234 o gontractau masnachol ac mae'r rhan fwyaf o gontractau newydd yn cael eu caffael drwy ei bartner galluogi, Shared Services Connected Limited (sy'n masnachu fel SSCL) – un o brif ddarparwyr gwasanaethau cymorth hanfodol i fusnesau ar gyfer Llywodraeth a sector cyhoeddus y DU. Fel Partner Galluogi, mae SSCL yn sicrhau bod yr holl ofynion perthnasol a nodir mewn Nodiadau Caffael Cyhoeddus, fel PPN 05/19 – Tackling Modern Slavery in Government Supply Chains, a PPN 06/20 - *Taking account of social value in the award of central government contracts* sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y gweithlu a Chaethwasiaeth Fodern yn cael eu defnyddio'n briodol.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan CITB 685 o Weithwyr (640 Llawn amser, 45 Rhan amser) yn ei swyddfeydd a'i Golegau Adeiladu Cenedlaethol ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae gan CITB nifer fawr o weithwyr symudol hefyd. Mae unrhyw staff dros dro sydd eu hangen yn ystod y flwyddyn yn cael eu recriwtio drwy Capita neu Brook Street, a gyflogwyd drwy fframwaith caffael y Llywodraeth.

Rheolwr Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol CITB yw'r pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau Caethwasiaeth Fodern ac yn dilyn ailstrwythuro yn 2020, mae bellach yn adrodd i Ysgrifennydd y Bwrdd yn y Gyfarwyddiaeth Gyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfiaeth. Mae cynllun gweithredu Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol CITB yn cynnwys Caethwasiaeth Fodern ac adroddir ar gynnydd bob chwe mis i'r Tîm Gweithredol gydag unrhyw bryderon yn cael eu huwchgwyfeirio'n brydlon.

Y ddau brif undeb sy'n cynrychioli staff CITB yw Unite a GMB. Mae cytundeb ar waith i sefydlu'r ffyrdd o weithio a'r egwyddorion cyffredinol rhwng y partïon.

3. Polisiâu mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl

Mae gan CITB nifer o bolisiâu sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern sy'n cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd, sef:

- Polisi Caffael – mae'n amlinellu dull gweithredu CITB o ran diwallu ei anghenion allanol, ei berthynas â rheolau caffael cyhoeddus, y lefelau ariannol ar gyfer gwahanol fathau o gaffael a'i ddull gweithredu o ran defnyddio busnesau bach a chanolig a chyflenwyr lleol; ac mae'n cael ei arwain gan ofynion Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 y mae'n rhaid i CITB lynu wrthynt. Mae'r telerau ac amodau safonol ar gyfer cyflenwyr yn mynnu eu bod yn cynnal hawliau dynol a hawliau llafur ac yn atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn eu gweithrediadau a'u cadwyni cyflenwi. Cafodd y Polisi ei adolygu ddiwethaf gan y Weithrediaeth ym mis Mawrth 2021.
- Polisi Adrodd Pryderon (chwythu'r chwiban) – mae'n rhoi manylion am y dull o roi gwybod am unrhyw bryderon (gan gynnwys rhywun a allai fod mewn perygl o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl), sut yr ymdrinnir â'r rhain, a diogelu 'chwythwyr chwiban'. Mae'r polisi hwn i fod i gael ei adolygu gan y Weithrediaeth ym mis Gorffennaf 2021.
- Polisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol – mae'n disodli'r Polisi Cynaliadwyedd ac yn canolbwyntio ar bedair colofn Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Mae'r golofn 'Ein Busnes' yn nodi'r ymrwymiad bod CITB yn 'caffael yn gynaliadwy ac yn gyfrifol' ac mae'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Argymhellodd y Tîm Gweithredol fod y Polisi hwn yn cael ei gymeradwyo i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2021, a bydd yn cael ei dderbyn gan y Bwrdd yng nghyfarfod mis Awst 2021.
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – mae'n nodi sut bydd CITB yn darparu, yn monitro ac yn gweithredu polisiâu ac arferion sy'n trin pobl yn deg, gyda pharch ac sy'n sicrhau bod CITB yn lle cynhwysol i weithio. Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu fel rhan o Strategaeth Pobl newydd CITB a fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2021.
- 'Canllawiau Recriwtio 'Cam wrth Gam' – mae'n rhoi manylion am ddull gweithredu CITB ar gyfer recriwtio, canfod, dethol, preswyllo a chynefino pobl i'r sefydliad, er enghraifft, sicrhau bod archwiliadau hawl i weithio priodol yn cael eu cwblhau, bod gan bawb gontractau cyflogaeth sy'n datgan telerau ac amodau a'u bod yn cael eu talu'n uniongyrchol.

- Polisi Tâl a Buddion – mae'n rhoi manylion tâl a chyflog, y fframwaith buddion, ei gysylltiad â pherfformiad, a'r mecanweithiau a ddefnyddir i wneud penderfyniadau cyflog yn deg.
- Polisi Diogelu – mae'n rhoi manylion dull gweithredu CITB ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed gyda'r fersiwn diweddaraf wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn eu cyfarfod ym mis Mai 2021.
- [Gweithdrefn gwyno](#) – mae'n cynnig ffordd i bartïon allanol roi gwybod am bryderon ynglŷn â Chaethwasiaeth Fodern yng ngweithrediadau busnes CITB ac mae ar gael ar wefan CITB. Os codir pryder a bod yr achwynydd yn teimlo nad yw'r mater yn cael ei ddatrys mewn modd boddhaol, gall gysylltu â'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd a hynny drwy Aelod Seneddol.

Mae'r holl bolisïau ar gael ar fewnwyd CITB i staff gael mynediad atynt. Bydd rhagor o bolisïau'n cael eu datblygu os bydd angen.

Mae'r broses ar gyfer datblygu, cymeradwyo a pherchnogi polisïau yn y busnes yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei rheoli drwy benodi Rheolydd Dogfennau Corfforaethol yn 2021. Os na fydd staff yn cydymffurfio â pholisïau CITB, gall arwain at gamau disgyblu neu ddiswyddo.

4. Asesu, atal a lliniaru risg

O gymharu â 2019-20, nid yw CITB wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i natur y cynnyrch a'r gwasanaethau y mae'n eu caffael. Mae'n defnyddio busnesau cydnabyddedig sydd wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig; ac felly, mae'n tybio bod y risg o gaethwasiaeth fodern yn isel.

Mae gweithgarwch twyllodrus yn dal i fod yn un o brif risgiau strategol corfforaethol CITB (a gall gweithgarwch o'r fath gynnwys caethwasiaeth fodern a masnachu pobl), ac mae mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risg hon.

Fel Corff Cyhoeddus Anadrannol o'r Adran Addysg, mae CITB yn caffael o nifer o fframweithiau sefydledig gan sefydliadau prynu drwy drefniadau caffael sector cyhoeddus, fel Consortiwm Prynu Prifysgolion Llundain (LUPC), Gwasanaethau Masnachol y Goron (CCS) a Sefydliad Prynu Eastern Shires (ESPO) sy'n gorfod glynu wrth yr Hysbysiadau Caffael Cyhoeddus.

Cafodd yr asesiad risg o gyflenwyr Haen 1 CITB ei adolygu gan Reolwr Contractau Corfforaethol Masnachol CITB i weld pa gontractau oedd yn cael eu hystyried yn rhai risg canolig neu uchel, sef: y rhai a oedd â dau neu ragor o ffactorau risg. Y ffactorau risg a ddefnyddir yw: Math o Ddiwydiant, Nwyddau, Lleoliad y Cyflenwr, Modelau Cadwyn Gyflenwi'r Busnes, Natur y Gweithlu, a'r Cyd-destun y mae'r Gadwyn Gyflenwi'n Gweithredu ynddo.

Mae gan CITB bum cyflenwr (sy'n cynnwys cynnyrch hyrwyddo, ystorfa, gwasanaethau glanhau ac arlwy, electroneg a chyfarpar diogelu personol) yr ystyriwyd eu bod yn risg ganolig neu uchel oherwydd eu cadwyni cyflenwi. Yn ystod 2020/21, o ganlyniad i'r pandemig a gyda digwyddiadau'n cael eu canslo, ni phrynwyd unrhyw nwyddau hyrwyddo.

Mae un o Reolwyr Masnachol a Chontractau CITB bellach wedi'i gofrestru fel cyflenwr yn yr Adnodd Asesu Caethwasiaeth Fodern (MSAT) a thrwy ddefnyddio proses sy'n gymesur â lefel y risg, bydd yn gwahodd y cyflenwyr risg canolig ac uchel i gwblhau MSAT. Yna bydd camau pellach yn cael eu hystyried ar ôl derbyn yr wybodaeth.

Ar 31 Mawrth 2021, o'r 38 o gyflenwyr sydd wedi'u hychwanegu at y dangosfwrdd Tryloywder yn y Gadwyn Gyflenwi ('TIS') (llwyfan data agored mwyaf y byd sydd wedi ymrwmo i roi terfyn ar lygredd, cam-drin llafur yn y gadwyn gyflenwi a chaethwasiaeth fodern); o'r rheini sydd â throsiant wedi'i gadarnhau (dros £36M) - mae'n rhaid i 11 gynhyrchu datganiadau, a dim ond pedwar ohonynt sydd â datganiadau sy'n bodloni holl feini prawf y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd. Mae dau gwmni wedi gwella er mwyn bodloni'r meini prawf adrodd gofynnol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

5. Prosesau Diwydrwydd Dyladwy

Mae CITB wedi llofnodi Protocol Adeiladu'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur ac mae wedi ymrwmo i weithio mewn partneriaeth i ddiogelu gweithwyr sy'n agored i niwed a gweithwyr sy'n cael eu hecsbloetio. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth i helpu i atal neu rwystro camfanteisio, ac addewidion i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth drwy gadwyni cyflenwi yn y diwydiant adeiladu.

Mae'r pandemig COVID-19 a'r cyfnod clo dilynol wedi gweld symudiad sylweddol mewn cymunedau â chyflogau isel neu gymunedau lle mae risg uchel o faterion caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, wrth iddynt symud o feysydd fel golchi ceir, adloniant, arlwyo neu gyflogaeth arall yn yr economi 'gig' i'r maes adeiladu. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn gweithgarwch twyllodrus o ran profion a chymwysterau sy'n ymwneud ag adeiladu a ddefnyddir ar gyfer cardiau cymhwysedd adeiladu.

Mae ymchwiliadau ac erlyniadau a adroddwyd yn flaenorol wedi cael eu gohirio oherwydd effeithiau'r pandemig, ond mae cymorth wedi cael ei roi i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar gyfer dau ymchwiliad mawr arall.

Mae CITB hefyd wedi cael ei wahodd i ymuno â chynllun sy'n cael ei arwain gan yr Heddlu Metropolitan - mae prosiect ENTERPRIE yn ceisio gweithio gyda phartneriaid, fel GLAA, DWP, NCA, Awdurdodau Lleol, Mewnfudo a UKBF, i enwi rhai aelodau gweithredol, er mwyn mynd i'r afael â'r troseddau hyn.

Mae gan CITB e-bost penodol 'report.it@citb.co.uk' i gydweithwyr yn y diwydiant adeiladu roi gwybod am unrhyw amheuan ynglŷn â gweithgarwch twyllodrus. Gall hyn gynnwys gweithgarwch masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. Yn 2020-21, ni chafwyd unrhyw achosion newydd drwy'r cyfeiriad e-bost.

6. Effeithiolrwydd, wedi'i fesur yn erbyn DPA priodol

Mae'r Hyb Perfformiad mewnol sy'n darparu gwybodaeth allweddol i'r Tîm Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth yn cael ei adnewyddu yn 2021/22 ac mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu hadolygu.

Rhagwelir y bydd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol canlynol yn parhau:

- % y ddyled (£ ac anfonebau) sydd ddim yn cael yn cael eu talu o fewn y telerau y cytunwyd arnynt
- % yr Ardoll a dalwyd ar amser

Drwy dalu'n brydlon, y gobaith yw y bydd credydwyr yn gwneud yr un peth ee talu eu staff ar amser; ac os oes unrhyw ddyledwyr hwyr, gall weithredu fel rhybudd y gallai'r cwmni fod mewn trafferthion ac y gallai droi at arferion gwael a fyddai'n cyfiawnhau ymchwiliad pellach.

Bydd y Rheolwr Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn adolygu

- % y staff gofynnol sy'n cwblhau'r hyfforddiant gorfodol – targed cwblhau o 100%
- % y rhai y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddyn nhw gyflwyno datganiadau MDS a gyhoeddir ac sy'n bodloni meini prawf y Swyddfa Gartref (data sy'n cael ei gymryd o TISC)

7. Hyfforddiant a meithrin gallu

Roedd yn rhaid i'r Tîm Gweithredol a phob aelod o staff gwblhau modiwl e-ddysgu gorfodol ar Gaethwasiaeth Fodern erbyn 31 Mawrth 2021, gyda chyfradd cwblhau o 86%.

Mae Tîm Caffael SSCL yn cynnal cwrs gloywi blynyddol fel rhan o'u haelodaeth o CIPS ar gyfer Cyflenwyr a Chaffael Moesegol sy'n cynnwys Caethwasiaeth Fodern gan ddarparu cadarnhad.

Fel rhan o'i ymrwymiad i 'Siarter Mae Pobl yn Bwysig' Ysgol y Gadwyn Gyflenwi sy'n cynnwys mynd i'r afael ag ecsbloetio llafur, mae CITB yn treialu 'llwybr dysgu' gyda rhai o'i gyflenwyr allweddol, ac os bydd yn llwyddiannus, bydd yn cael ei gyflwyno i ragor o'i gyflenwyr. Mae'r Llwybr yn caniatáu i CITB ddyrannu modiwlau e-ddysgu bach allweddol i gyflenwr a thracio eu bod wedi'u cwblhau, gan roi rhywfaint o sicrwydd i CITB bod cyflenwyr yn ymwybodol o ddeddfwriaeth allweddol ar bynciau hawliau dynol allweddol gan gynnwys Caethwasiaeth Fodern a Chydraddoldeb a pha gamau y gallen nhw ac y dylen nhw eu cymryd. Cafodd y cynllun peilot ei ohirio oherwydd bod staff ar ffyrlo yn ystod y Pandemig a bydd yn dechrau yn 2021/22.

Mae Tîm Prentisiaethau CITB yn darparu modiwl hyfforddiant byr i'w Swyddogion Prentisiaethau, ac fel y dengys yr astudiaeth achos – maen nhw bellach yn gallu gweld yr arwyddion a rhoi gwybod am bryderon i unigolion.

Astudiaeth Achos

Dywedodd Swyddog Prentisiaethau mewn ardal wledig wrth ei Reolwr Cyflenwi Ardal fod un o'i brentisiaid wastad yn brin o arian, a gofynnodd am gyngor ynglŷn â sut i godi'r pwnc o gael codiad cyflog i'r prentis gan gyflogwr heriol. Ar ôl trafodaeth bellach, dywedodd y Swyddog Prentisiaethau fod y prentis yn byw mewn llety oedd yn cael ei ddarparu gan ei gyflogwr a bod ei ddiwydiadau o'i gyflog wastad yn ymddangos yn uwch na'i gydweithwyr. Roedd y prentis wedi bod yn byw ar ei ben ei hun ers ei fod yn 18 oed (roedd bellach yn 22 oed), pan ddywedodd ei rieni nad oedden nhw'n gyfrifol amdano mwyach.

Teimlai'r Rheolwr Cyflenwi Ardal fod gan y sefyllfa hon ddangosyddion y gallai'r prentis fod mewn perygl o gael ei ecsbloetio gan y cyflogwr ac awgrymodd y dylai'r Swyddog Prentisiaethau gael sgwrs arall gyda'r prentis pan oedd yn y coleg, gan sicrhau nad oedd y Swyddog Prentisiaethau yn datgelu ei bryderon ond yn hytrach yn casglu ffeithiau. Ar ôl cael gwybod mwy, bu'r Rheolwr Cyflenwi Ardal yn trafod y sefyllfa gyda'r Rheolwr Cyflenwi Rhanbarthol. Cytunodd y ddau y byddai ymchwiliad pellach yn ddefnyddiol – cysylltodd y Rheolwr Datblygu Ardal â'r heddlu lleol a fu'n gyfrifol am yr ymchwiliad. Parhaodd y prentis i weithio gyda CITB ac yn y pen draw symudodd i eiddo rhent arall a chyflogaeth newydd, gan fynd ymlaen i gwblhau ei brentisiaeth.

Ym mis Mawrth 2021, cytunodd y Tîm Gweithredol i hyfforddi nifer o staff CITB i fod yn Bencampwyr Caethwasiaeth Fodern a fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a rhoi gwybod i bobl eraill sut gallan nhw gael help. Bydd cwrs hyfforddi undydd yn cael ei gynnal ar 1 Gorffennaf 2021. Caiff ei gyflwyno gan y sefydliad Stronger2gether. Yna, bydd yr Hyrwyddwyr yn helpu i ddarparu cyfathrebiadau ar adegau allweddol drwy gydol y flwyddyn. Bydd y Pencampwyr yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon fydd yn cael eu codi'n fewnol i Dîm Twyll CITB, a fydd yn adolygu'r holl wybodaeth hysbys ac yn ei rhannu â'r asiantaethau gorfodi priodol.

8. Gweithgaredd arall wedi'i gynllunio ar gyfer 2021/22.

- Cwblhau'r camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau o 2020/21 oherwydd bod staff ar ffyrlo yn ystod y pandemig.
- Drafftio Cod Ymddygiad i Gyflenwyr a ddatblygwyd yn unol ag Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol ac sy'n seiliedig ar y Bil Hawliau Dynol Rhyngwladol a Datganiad Egwyddorion Sylfaenol a Hawliau yn y Gwaith y Sefydliad Llafur Rhyngwladol.
- Cynnal gweithdy gyda Chynghorau Cenedlaethol CITB ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar Gaethwasiaeth Fodern i ystyried pa rôl ddylanwadol y gallai/dylai CITB ei chwarae i gefnogi'r Sector Adeiladu.
- Hyfforddi nifer o staff fel Pencampwyr Caethwasiaeth Fodern i helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arwyddion Caethwasiaeth Fodern a sut i roi gwybod am bryderon.

- Ymuno â Busnes yn y Gymuned (BITC) a chwblhau'r hyfforddiant a dechrau paratoi i gymryd rhan yn eu Traciwr Busnes Cyfrifol yn 2022/23, sy'n cynnwys adolygu pa bolisiâu a phrosesau sydd ar waith i gadw unigolion yn ddiogel, ac yn rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwyr Gweithredol CITB ar 23 Mehefin 2021.

Llofnod y Cyfarwyddwr



Emma Black

Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfiaeth
Mehefin 2021